

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 8fed Hydref, 2019 am 7.30pm yn Neuadd Felinfach**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Alan Henson (Cadeirydd), Glyn Davies, Lynford Thomas Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Daniel Evans, Lyn Williams, Haf Hughes.

1. **YMDDIHEURIADAU** Owen Llywelyn, Hywel Ifans.

2. **PERSONOL** Dim materion personol

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL** Dim i'w datgelu

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion 10fed Medi, 2019. Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.

**5.. MATERION YN CODI**

**12.i. Llwybyr Bro Henllys.** Cadarnhaodd Cyng. Lynford Thomas fod trefniadau ar y gweill i gymenu'r llwybyr. Gofynnwyd i Michael Brown i 'neud y gwaith. **Penderfynwyd** gofyn iddo ymgymryd â'r gwaith o gynnal-a-chadw'r llwybyr yn ôl y galw.

**12.iii. Clawdd Bro Silin, Cribyn.** Nodwyd mai Tai Ceredigion sydd yn gyfrifol am y clawdd (nid llwybyr). Cadarnhodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â Tai Ceredigion a **phenderfynwyd** cysylltu unwaith eto.

**6. Ymgynghoriad Ysgol Newydd I Ddyffryn Aeron.** Cadarnhodd y Clerc bod yr ymateb a gytunwyd wedi ei anfon i'r Cyngor ar y 16eg Medi, 2019.

**6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Yn dilyn cyfarfod am sefyllfa'r 'rising main' yn Felinfach, cyhoeddodd bod y gwaith hwn yn cael ei ohirio tan ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Anogodd y Cynghorywr i ymateb i 'Her y Gyllideb' y Cyngor Sir sy'n gofyn am syniadau ar sut i 'neud arbedion ariannol.

Nododd y bydd Gorsaf Ambiwllans yn cael ei leoli ym Min Aeron, Aberaeron ac yn ystod y mis cafodd ei ail-ethol i fwrdd Tai Ceredigion a bu'n mynychu nifer o Gyrddau Diolchgarwch yn yr etholaeth.

**7. CYNHADLEDD UN LLAIS CYMRU 5/10/2019**

Y Cyng. Lynford Thomas a'r Clerc (yn absenoldeb Y Cyng. Harry Williams) bu'n cynrychioli'r Cyngor yn y Gynhadledd ym Mhonrhydfendigaid. Dilynwyd cyflwyniadau'r bore gan y Cyfarfod Blynyddol lle y cyflwynwyd ein cynnig ni parthed arwyddion ffyrdd fel a ganlyn:

*Y dylid cael unffurfiaeth genedlaethol ar gyfer arwyddion ffyrdd a chyhoeddus yng Nghymru a lle mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer arwydd cyhoeddus sy'n cynnwys defnyddio iaith, dylai'r arwydd fod yn ddwyieithog (hy Cymraeg yn gyntaf ac yna Saesneg), ac y dylai hyn fod yn amod i ganiatâd cynllunio '*

Cynigiwyd gan Gyngor Tref Caerfyrddin ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas. Pasiwyd y cynnig a bydd nawr yn cael ei gyflwyno i Lwyodraeth Cymru.

## 8. CYLLID

- i. **Adroddiad yr Archwiliad.** Derbyniwyd yr adroddiad gyda chywiriadau ar ddau bwynt gweinyddol. Dywedodd y Clerc ei bod wedi anfon llythyr yn ôl at Grant Thornton yn cwstyfnu'r cywiriadau fel a ganlyn:
  - **Cyhoeddi'r Hysbysiad Pennu Dyddiad Etholwyr yn electroneg.** Yn dilyn cais am wybodaeth ynglŷn â'r mater hwn gan eich swyddfa, esboniais ein bod ni, yn ystod y cyfnod hwn, wedi comisiynu gwefan newydd ac nad oedd y wefan yn fyw ar yr adeg pan gwiriwyd yr Hysbysiad. Esboniais y byddai'r Hysbysiad yn cael ei lanlwytho unwaith y byddai'r wefan yn weithredol. Gwnaethpwyd hyn o fewn dyddiau yn dilyn ein sgwrs. Byddem yn falch pe bae hyn yn cael ei gofnodi yn y dogfennau sywddogol.
  - **Cyfeirnod cofnodion a dyddiad cymeradwyo.** Er i mi gadarnhau'r dyddiad dros y ffôn fel a nodir, mae'r copi gwreiddiol a anfonais (a'r copi a wnes i o'r ffurflen cyn ei hanfon atoch ar 13/6/2019) yn dangos bod cyfeirnod y cofnodion yno gyda'r dyddiad yn fy ysgrifen i- 11/6/2019 7.ii A oedd angen nodi'r cyfeirnod mewn blwch arall neu mewn ffurf arall?
- ii. **Datganiad Taliadau I Gynghorwyr.** Anfonwyd ffurflen 'nil return' at Banel Annibynnol Cymru.
- iii. **Tâl y Clerc am fis Medi £153.46**
- iv. **Treth.** Yn ddyledus i HMRC erbyn 22ain Hydref £114.96 (Gorffennaf £38.40 / Awst £38.36 / Medi £38.20)
- v. **Trafodaeth am wario'r Praesept.** Trafodwyd y balans cyn y sesiwn ymgynghori gydag Euros Lewis. Y balans ar 12/9/2019 yw £6021.38. Amcangyfrifir bod £6,300 i fynd mas o'r cyfri' cyn diwedd mis Mawrth 2020 ond disgwylir taliad olaf y Praesept o £3316.00 ar ddiwedd mis Hydref. Yn dilyn cyngor gan Mr. Gwyn Jones, yr Archwilydd Mewnol ac yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr am yr egwyddor o fuddsoddi er budd y gymuned, penderfynwyd ar swm o hyd at £2,000 ar gyfer ariannu prosiect i'w benderfynu gan gadw £1,000 wrth gefen.

## 9. GOHEBIAETH

Derybniwyd gwahoddiad gan CRUSE i ymuno â nhw I ddathlu'r 60 yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi ar 20fed Hydref.

## 10. CYNLLUNIO. Dim materion cynllunio i'w trafod

## 12. UNRHYW FATER ARALL

- I. Nododd y Cyng. Harry Williams bod ei gyfnod fel Llywodraethwr Ysgol Felinfach yn dod i ben yn fuan. Datganodd ei ddymuniad i barhau yn y swydd am dymor arall. **Penderfynwyd** yn unfrydol cyflwyno ei enw i gynrcyhioli'r cyngor pan fyddai'r llythyr yn cyrraedd yn gofyn am enwebiad.
- II. Codwyd pryder gan y Cyng. Johnny Davies am nifer y tyllau ar hewl Arfryn yn arwain at fferm Bwlch. Mae gofawyr yn teithio ar yr hewl sawl gwaith y dydd ac er bod arwyddion rhybudd wedi eu gosod gerllaw mae angen 'neud y gwaith cynnal-a-chadw ar frys. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd. (Cyfeirnod yr ohebiaeth) W111019-115438)
- III. Cododd y Cyng. Glyn Davies unwaith eto y broblem dŵr ar hewl Ffynnonoer (W141118-35293). Penderfynwyd cysylltu unwaith eto ag Adran y Priffyrdd (Cyfeirnod newydd W111019-115437)
- IV. Tynnodd Y Cyng. Glyn Davies sylw at ddŵr sy'n cronni ar yr hewl gerllaw arosfan bws Ystrad Aeron. Penderfynwyd cysylltu ag Adran y Priffyrdd (Cyfeirnod yr ohebiaeth W141019-115837).
- V. Bydd Y Cyng. Harry Williams a Lynford Thomas yn mynychu Cyfarfod Rhanbarth Un Llais Cymru ar 9fed Hydref, 2019 yn Aberaeron.

## 12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 12fed Tachwedd, 2019 yn Ysgol Cribyn

## SESIWN YMGYNGHORI

Yn dilyn y cyfarfod ffurfiol cafwyd sesiwn ymgynghori parthed 8 v. uchod. Cynhaliodd Euros Lewis sesiwn rhyngweithiol er mwyn ysgogi syniadau creadigol yn seiliedig ar anghenion a photensial ein cymdogaethau. Mi fydd ffrwyth y sesiwn yn fan cychwyn ar gyfer trafod defnydd posib ar yr arian a neilltuwyd gan y cyngor ar gyfer datblygu syniad/au newydd o fudd tymor hir i'r etholaeth.

